# Cam 1: Cyflwyniad

Yn ystod prosiect Ffermio STEMterprise bydd plant yn cwblhau ystod o dasgau trawsgwricwlaidd er mwyn tyfu eu cynhwysion eu hunain, datblygu eu cynnyrch bwyd eu hunain a sefydlu busnes siop fferm.

## Amcanion dysgu

- Deall bwydydd tymhorol
- Dylunio logo busnes
- Ymchwilio i hyd cylchoedd bywyd gwahanol blanhigion

## Trosolwg o'r cam

Yn y sesiwn hon, mae'r plant yn cael eu cyflwyno i'r syniad o farchnata mewn ffordd syml iawn ac yn cael eu hannog i feddwl am enghreifftiau yn eu bywydau bob dydd. Gofynnir i grwpiau busnes feddwl am enw busnes a dylunio logo busnes cofiadwy. Yna rhoddir cyfle i'r plant feddwl o ble mae eu bwyd yn dod a thrafod y cynhwysion y gallent eu tyfu eu hunain cyn meddwl am hyd cylch bywyd a natur dymhorol planhigyn wrth archwilio ystod o becynnau hadau i benderfynu pa gynhwysyn llysiau y dylai eu busnes ei dyfu.

## Defnyddiau sydd eu hangen

- Amrywiaeth o becynnau hadau llysiau i'r plant eu harchwilio
- Tabl archwilio hadau
- Taflen cynllunio strategaeth farchnata

## Nodiadau cyflwyno

| | |
|---|---|
| Sleid 2: Cyflwyno'r prosiect | • Cyflwyno'r broblem ysgogi. Esboniwch i'r plant ei bod hi'n hawdd sefydlu busnes lwyddiannus; y cyfan sydd ei angen yw cael syniad da a deall egwyddorion busnes sylfaenol. Yn ystod y prosiect hwn, byddwn yn dysgu sut i wneud hynny ac efallai un diwrnod, gallent fod yn entrepreneuriaid y dyfodol!! |
| Sleid 3: Ffactorau sy'n effeithio ar fusnesau | • Wrth sefydlu busnes, mae angen i entrepreneuriaid ystyried llawer o ffactorau. Gofynnwch i grwpiau busnes feddwl beth allai'r rhain fod<br>• Atebion posib: Pa gynnyrch / cynhyrchion i'w gwerthu, faint i'w godi, ble y dylent eu gwerthu (stondin, siop, gwefan), pwy fydd yn eu prynu? |
| Sleid 4: Diffiniad o farchnata | • Rhannwch y dyfyniadau ar y sleid a gofynnwch i'r plant feddwl am yr hyn y gallai'r rhain ei olygu. |
| Sleid 5: Ymddygiad archfarchnad | • Gofynnwch i'r plant feddwl, wrth siopa mewn archfarchnad, lle mae llawer iawn o ddewis, beth sy'n gwneud iddyn nhw/eu rhieni ddewis prynu'r cynhyrchion maen nhw'n eu prynu? A ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw beth sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad prynu? |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 6: Ymddygiad archfarchnad | • Gofynnwch i'r plant feddwl am yr hyn y mae pob un o'r lluniau'n ei gynrychioli. Sôn am bob un o'r lluniau:<br>– **Logo tractor coch**: gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod beth yw ystyr y logo. Gellir dod o hyd i logo'r tractor coch ar ystod eang o fwyd a diod o ansawdd gan gynnwys cig, llysiau, ffrwythau, llaeth, caws, siwgr a blawd. Mae jac yr undeb o fewn y logo yn dweud wrthym fod y bwyd wedi dod o ffermydd Prydain ac y gellir olrhain pob cam o'i daith. Mae bwydydd sy'n cario logo'r tractor coch wedi'u cynhyrchu gan ddilyn safonau trwyadl diogelwch bwyd, lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd.<br>– **Llun llaeth**: gofynnwch i'r plant feddwl am leoliad y llaeth yn eu harchfarchnad leol a rhannu nifer o atebion. Tynnwch sylw at y ffaith ei bod bron bob amser yng nghefn y siop, yn y man pellaf i ffwrdd o'r drws. Pam mae archfarchnadoedd i gyd yn gwneud hyn? Maent yn gwybod bod llawer o bobl yn prynu llaeth yn rheolaidd felly trwy ei roi yng nghefn y siop, bydd yn rhaid i gwsmeriaid gerdded heibio'r holl gynhyrchion eraill y maent yn eu gwerthu a gobeithio y cânt eu temtio i'w prynu. Gofynnwch i'r plant a yw eu rhieni erioed wedi gwneud hyn: picio i mewn i siop am un peth a gorffen prynu llawer o eitemau eraill?<br>– **Llun Tuniau ar silff**: eglurwch fod archfarchnadoedd yn gosod eu cynhyrchion rhatach, eu brand eu hunain ar silffoedd isel ac uchel, tra bod cynhyrchion y maent am werthu mwy ohonynt wedi'u gosod yn unol â llygaid oedolyn fel eu bod yn sylwi arnynt. Mae cynhyrchion sy'n targedu plant yn aml yn cael eu gosod yn unol â llygaid plentyn fel eu bod yn sylwi arnyn nhw ac yn gofyn i'w rhieni eu prynu.<br>– **Llun til**: gofynnwch i'r plant feddwl pa fath o fwyd sy'n cael ei werthu wrth y ddesg dalu. Pam maen nhw'n meddwl bod yna lawer o fyrbrydau blasus (ond afiach yn aml) i'w prynu wrth y ddesg dalu? A ydyn nhw erioed wedi gofyn i riant brynu un ohonyn nhw? Esboniwch fod y rhain yn cael eu rhoi wrth y ddesg dalu i demtio siopwyr blinedig i brynu trît i'w hunain tra'u bod nhw'n ciwio i dalu am eu bwyd.<br>– **Llun grawnfwyd**: gofynnwch i'r plant feddwl pam mae pecynnau grawnfwyd yn aml ag anifeiliaid neu gymeriadau cyffrous ar y bocsys. At bwy maen nhw'n ceisio apelio? Ydyn nhw'n meddwl y bydd y grawnfwyd y tu mewn yn blasu'n wahanol i'r blychau plaen?<br>– **Llun cynnig arbennig**: gofynnwch i'r plant feddwl pam y byddai rhywun yn prynu cynnyrch sydd ar stondin 'cynnig arbennig'. Efallai y byddan nhw'n ei brynu oherwydd eu bod nhw eisiau arbed arian. Os yw cwsmeriaid yn teimlo eu bod wedi prynu bargen ac wedi arbed arian, a fyddant yn fwy neu'n llai tebygol o gael eu temtio i brynu cynhyrchion ychwanegol tra byddant yn yr archfarchnad? |
| Sleid 7: Marchnata | • Rhannwch y pedwar prif ffactor marchnata ac anogwch y plant i ddefnyddio'r eirfa newydd y maent wedi'u dysgu. |
| Sleid 8: Cynnyrch | • Esboniwch y gall busnesau werthu llawer o wahanol gynhyrchion ond bydd ein busnesau siopau fferm yn gwerthu cynnyrch bwyd amser cinio iach y byddwn yn ei wneud gan ddefnyddio cynhwysion y gallwn eu tyfu ein hunain. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 9: Brandio | • Cyflwyno'r cysyniad o frandio a gofyn i'r plant feddwl am unrhyw logos busnes eraill y maent yn gyfarwydd â nhw. |
| Sleid 10: Creu brand | • Gofynnwch i'r plant feddwl am enw ar gyfer eu busnesau a dylunio logo cryf ar gyfer eu cwmni. Pwysleisiwch y pwynt bod rhai o'r logos brand mwyaf adnabyddus yn ddyluniadau syml iawn. |
| Sleid 11-13: O ble mae ein bwyd yn dod? | • Trafodwch o ble mae'r bwydydd a ddangosir ar y PowerPoint yn dod a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau:<br>– Mae mafon yn tyfu ar lwyni trwchus, drain ac yn barod i'w bwyta rhwng Mai a Thachwedd.<br>– Mae ieir yn dodwy wyau.<br>– Mae gwenith yn tyfu mewn caeau mawr, agored. Mae'r hadau wedi'u malu'n flawd i wneud bwyd fel bara a grawnfwydydd.<br>– Daw llaeth o fuchod godro.<br>– Mae letys yn cael eu tyfu yn yr awyr agored yn bennaf ac yn tyfu'n gyflym pan fydd y tywydd yn gynnes.<br>• Sefydlwch y gallwn dyfu rhai ffrwythau a llysiau ein hunain. Gofynnwch i'r plant feddwl am unrhyw ffrwythau neu lysiau y gellir eu tyfu o hadau yn y DU. |
| Sleid 14: Tyfu llysiau o hadau | • Rhannwch y rhestr o ffrwythau a llysiau a gweld faint roedd y plant yn gallu eu henwi'n annibynnol.<br>• Esboniwch na allwn dyfu rhywfaint o ffrwythau, er enghraifft cnau coco, yn y D.U. oherwydd bod rhai planhigion angen amodau penodol nad oes gennym ni yn y D.U er mwyn tyfu e.e. hinsawdd drofannol neu fath penodol o bridd. |
| Sleid 15: Cnydau tymhorol a chylchoedd bywyd planhigion | • Mae gwahanol gnydau yn tyfu ac yn barod i'w cynaeafu ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Er enghraifft, mae mefus yn barod i'w bwyta yn ystod misoedd yr haf, ond mae pwmpenni yn barod i'w bwyta yn yr hydref.<br>• Wrth benderfynu pa gynhwysyn llysiau y dylem ei dyfu, mae angen i ni feddwl am yr amser y mae'n ei gymryd i'n hadau dyfu i fod yn llysiau y gallwn eu defnyddio (hyd cylchoedd bywyd y planhigion) ac ai dyma'r amser iawn o'r flwyddyn iddynt dyfu (tymhorol). |
| Sleid 16: Archwilio hadau | • Cyflwynwch y dasg, rhowch ddetholiad o becynnau hadau i'r plant a gofynnwch i'r plant ddilyn yr awgrymiadau ar y PowerPoint i'w helpu i lenwi'r adnodd tabl archwilio hadau. |
| Sleid 17: Amser penderfynu | • Gofynnwch i'r plant roi adborth ar eu canfyddiadau wrth ymchwilio i'r pecynnau hadau a gwneud penderfyniad dosbarth ynghylch pa lysiau fyddai'n briodol i'w tyfu ar gyfer y cynnyrch. |



© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| Pwnc | Testun | Amcan |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth | Pethau byw a'u cynefinoedd | • Disgrifiwch broses bywyd atgenhedlu mewn rhai planhigion ac anifeiliaid |
| Dylunio a Thechnoleg | Coginio a maeth | • Deall bwydydd tymhorol, a gwybod ble a sut mae amrywiaeth o gynhwysion yn cael eu tyfu, eu magu, eu dal a'u prosesu |
| Saesneg neu Cymraeg | Iaith lafar | • Mynegi a chyfiawnhau atebion, dadleuon a barn |



© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.